Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Elidyr Cymunedau Camphill

# Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Elidyr Cymunedau Camphill

Coleg annibynnol arbenigol preswyl ar gyfer pobl ifanc rhwng 18 a 30 oed yw Coleg Elidyr. Mae ystâd y coleg yn ymestyn i 180 erw, ac yn cynnwys gardd gegin, tir amaeth a choedwig. Mae'r coleg mewn lleoliad gwledig ger Llanymddyfri.

Mae 19 o ddysgwyr yn y coleg ar hyn o bryd, ac mae pob un ohonynt yn byw yn un o'r chwe thŷ preswyl ar y safle. Mae gan ddysgwyr yn y coleg amrywiaeth o anawsterau ac anableddau dysgu. O ganlyniad, nid yw'n briodol cymharu canlyniadau dysgwyr yng Ngholeg Elidyr â darparwyr eraill. Daw mwyafrif y dysgwyr o Gymru.

Cafodd y cwricwlwm yng Ngholeg Elidyr ei ysbrydoli'n wreiddiol gan athroniaeth addysgol a chymdeithasol Rudolf Steiner a Karl König. Mae'n pwysleisio dysgu ymarferol, trwy brofiad, ac yn cynnig cyfuniad o bynciau ar y tir, pynciau galwedigaethol a rhai crefft i helpu dysgwyr i ddatblygu medrau ar gyfer bywyd mwy annibynnol.

Cenhadaeth y coleg yw galluogi pobl ag anawsterau ac anableddau dysgu i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau a chyrraedd eu llawn botensial, tra'n byw ac yn gweithio mewn lleoliad cymunedol wedi'i ddylanwadu gan fudiad Camphill.

Mae'r Pennaeth a phob aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi bod yn eu swydd ers dros dair blynedd. Mae'r arweinwyr yn atebol i fwrdd ymddiriedolwyr.

Mae'r campws hefyd yn gartref i 25 o oedolion ifanc eraill, sy'n cael eu hariannu gan wasanaethau cymdeithasol a lleoliadau preswyl iechyd yn y gymuned. Ni wnaeth Estyn arolygu'r ddarpariaeth honno.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae bron pob un o'r dysgwyr yng Ngholeg Elidyr yn gwneud cynnydd rhagorol. O ganlyniad i'r cynnydd a wnânt, beth bynnag fo lefel eu hanghenion, erbyn yr adeg y byddant yn gadael y coleg, maent wedi eu paratoi'n well ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn mwynhau cwmni eu cyfoedion. Dros gyfnod, maent yn magu hyder i gyfarfod â phobl newydd. Mae hyn yn gynnydd arbennig o dda i ddysgwyr y bu eu sefyllfaoedd cymdeithasol yn her fawr yn y gorffennol.

Mae addysgu yn y coleg yn darparu profiadau hynod ysgogol ar gyfer dysgwyr sy'n eu helpu i ymgysylltu'n llawn â'u dysgu a gwneud cynnydd eithriadol o dda. Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn ymarferwyr angerddol a brwdfrydig sy'n cydweithio'n eithriadol o dda i gefnogi dysgwyr. Mae'r cwricwlwm creadigol a chynlluniedig, a'r cynllunio strategol pwrpasol ar gyfer dilyniant ym medrau unigol dysgwyr, yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), yn gryfderau arbennig o dda.

Mae'r coleg yn darparu lefelau eithriadol o uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer dysgwyr. Mae strategaeth effeithiol iawn y coleg cyfan ar gyfer cyfathrebu'n llwyr i gynorthwyo dysgwyr yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau dysgu a'u medrau cymdeithasol, ac yn eu paratoi yn eithriadol o dda ar gyfer bod yn oedolyn.

Ar draws y coleg, ceir ymdeimlad pwerus o ddiben ac ymroddiad. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y safonau eithriadol o dda a gyflawnir gan ddysgwyr a'u lefelau lles uchel. Mae arweinwyr a staff yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr a nhw eu hunain. Maent yn modelu a hyrwyddo ymddygiadau proffesiynol fel meithrin perthnasoedd sydd wedi'u gwreiddio mewn parch ar y ddwy ochr i gydweithio'n effeithiol a bwrw ymlaen â gwelliannau.

Mae'r ymddiriedolwyr yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad eithriadol o werthfawr o ran goruchwylio pob agwedd ar waith y coleg yn ofalus iawn.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod trefniadau'r coleg ar gyfer sicrhau ansawdd addysgu a dysgu yn canolbwyntio'n briodol ar gryfderau a meysydd i'w datblygu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi dwy astudiaeth achos ar agweddau ar ei arfer ragorol.

Bydd Estyn yn lledaenu'r astudiaethau achos hyn ar ei wefan.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yng Ngholeg Elidyr yn gwneud cynnydd rhagorol. O ran eu mannau cychwyn unigol, mae bron pob un o'r dysgwyr yn rhagori ar eu targedau personol ac yn gwneud cynnydd eithriadol o dda tuag at gyflawni eu potensial. O ganlyniad, maent yn gadael y coleg wedi eu paratoi'n well ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd eithriadol o dda o ran datblygu eu medrau cyfathrebu. Mae hyn yn gryfder ac yn galluogi dysgwyr i elwa ar y cwricwlwm ehangach a gynigir. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn cryfhau eu cyfathrebu yn effeithiol ag arwyddion neu drwy adnoddau eraill. Mae ychydig ohonynt yn datblygu medrau llafaredd clir a'r hyder i ddefnyddio'r rhain yn llwyddiannus. Mae'r dysgwyr hyn yn defnyddio iaith dechnegol a geirfa sy'n berthnasol i bwnc yn rhugl ac yn rhwydd. Defnyddiant y medrau hyn yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, fel siarad mewn cynhadledd ac yn y fforwm dysgwyr lle maent yn rhannu syniadau fel y rolau sydd eu hangen i sefydlu clybiau ieuenctid a chlybiau campfa wythnosol. Ar draws y coleg, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrando'n astud ar staff ac ar ei gilydd ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Maent yn dilyn arferion yn llwyddiannus, fel llwytho eu byrddau 'nawr a nesaf' â sbardunau llafar, ac yn dilyn arferion diogelwch yn gywir.

Dros gyfnod yn y coleg, mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu'r medrau a'r hyder i fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu. Maent yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn dda ac yn dysgu eu cymhwyso mewn modd perthnasol i fywyd bob dydd. Maent yn datblygu medrau myfyrio ac yn dechrau ystyried eu dewisiadau cyn gweithredu. I lawer o ddysgwyr, mae'r aeddfedrwydd hwn o feddwl cyn gweithredu yn gynnydd sylweddol o'u man cychwyn. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd anferth tuag at fod yn fwy annibynnol. Er enghraifft, maent yn dysgu llywio eu hunain o gwmpas safle'r coleg heb gymorth ac yn gofalu amdanyn nhw eu hunain yn ddiogel trwy fod yn ymwybodol o draffig.

Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu. Maent yn darllen â rhuglder a chywirdeb ac mae gan fwyafrif y dysgwyr hyn strategaethau priodol ar gyfer darllen geiriau newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dewis eu deunydd darllen eu hunain, ac mae ychydig ohonynt yn mynegi eu barn am storïau â brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ffurfio llythrennau yn dda, ac mae ychydig ohonynt yn sillafu geiriau addas yn gywir ac yn defnyddio atalnodau llawn yn gywir. Defnyddiant eu medrau'n briodol ar draws eu dysgu, ac maent yn gwella eu deheurwydd a'u medrau echddygol manwl yn dda trwy weithgareddau fel turnio a cherfio pren. Maent yn dysgu medrau gwerthfawr a fydd yn gwella eu rheolaeth wrth ddal pen trwy weithgareddau galwedigaethol rhythmig fel defnyddio'r ffrâm begiau mewn gwehyddu.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau rhifedd. Maent yn defnyddio medrau rhifedd sylfaenol yn gyson ac yn gywir, er enghraifft wrth gymharu gwrthrychau sy'n fwy neu'n llai na'i gilydd, a disgrifio gwrthrychau fel rhai trwchus neu denau a hir neu fyr. Mae ychydig ohonynt yn

adnabod rhifau sengl ac yn eu cyfrif i fyny i ddeg yn gywir, ac mae ychydig iawn ohonynt yn cyfrifo rhifau negyddol wrth dynnu ffigurau tri digid. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mewn gwaith pren, mae dysgwyr yn defnyddio ystod o fesurau yn dda, fel rhychwantau llaw, prennau mesur a thapiau mesur.

Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o ystod gyfyng o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i wella cyflwyniad eu gwaith, fel ymgorffori testun a delweddau mewn poster deniadol. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio ffotograffiaeth a ffilm yn effeithiol i ddangos tystiolaeth o'u gwaith, fel recordio senarios lle maent yn actio sut i ofalu am bobl y mae angen cymorth arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ennill achrediad am eu dysgu, er enghraifft wrth weithio tuag at Gynllun Gwobr Dug Caeredin lle maent yn gwirfoddoli yn y gymuned, yn gwersylla mewn pabell ac yn dysgu sut i ddarllen mapiau i ddilyn cyfarwyddiadau.

Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu eu medrau galwedigaethol yn eithriadol o dda gan ddefnyddio'r cyfleusterau ar safle'r coleg. Er enghraifft, mewn gweithgareddau manwerthu, arlwyo a chynnal a chadw gardd, dangosant fedrau rhifedd a medrau technegol da ac maent yn cyfathrebu'n hyderus gyda chwsmeriaid, ymwelwyr a staff. Mae'r profiadau hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer cyfleoedd gwaith â chefnogaeth mewn siopau a busnesau lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau echddygol bras a manwl mewn ystod o gyd-destunau defnyddiol, gyda chymorth addas lle bydd angen, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd, cribo gwlân â llaw i'w ddefnyddio mewn ffeltio a weindio bobinau ar gyfer gwehyddu. Mae'r dysgwyr yn falch o'r cynhyrchion o ansawdd da a wnânt, fel rygiau a rhedwyr lliain bwrdd y maent yn aml yn eu gwerthu trwy ddiwrnodau agored a digwyddiadau yn y coleg.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae ymddygiad dysgwyr o gwmpas y coleg yn rhagorol. Mae hyn oherwydd, wrth iddynt ddatblygu'r medrau i gyfathrebu'n fwy effeithiol, maent yn dysgu mynegi eu hemosiynau a rheoli eu hymddygiadau. Mae'r awyrgylch digynnwrf a phleserus ar y safle yn annog dysgwyr i symud o gwmpas y coleg mewn modd hamddenol, ac felly, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn barod i ddysgu. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol i'r dysgwyr prin sy'n cerdded yn annibynnol rhwng sesiynau ac egwyliau cinio.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n eithriadol o dda â'u dysgu. Maent yn frwdfrydig i roi cynnig ar weithgareddau newydd, gyda chymorth pan fydd angen, ac archwilio profiadau newydd. Maent yn amlwg yn mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft dylunio a chreu blychau adar, canŵio a chydweithio'n effeithiol i ofalu am alpacaod ac asynnod y coleg. Dangosant ofal a dealltwriaeth o sut orau i weithio gyda'r anifeiliaid hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn mwynhau cwmni eu cyfoedion. Maent yn magu eu hyder i gyfarfod â phobl newydd, er enghraifft pan fyddant yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd cenedlaethol, neu ar ddigwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned leol. Mae hyn yn gynnydd arbennig o dda i ddysgwyr y bu sefyllfaoedd cymdeithasol yn her fawr iddynt yn y gorffennol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau diet iach ac yn dewis byrbrydau iach amser egwyl. Maent yn deall pwysigrwydd cadw eu hunain wedi hydradu ac yn cario dŵr neu ddiodydd ffrwythau gyda nhw pan fyddant allan ar deithiau cerdded. Gwnânt ddefnydd da o'r gampfa ar y safle, maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau awyr agored ac yn mwynhau'r gweithgareddau allgyrsiol a gynigir gan y coleg. Mae llawer ohonynt yn trosglwyddo eu medrau corfforol yn llwyddiannus i'w hamser hamdden lle maent yn mwynhau dawnsio yn y clwb ieuenctid wythnosol, gwneud gymnasteg yn y clwb campfa a physgota mewn afonydd lleol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod at bwy i droi am gymorth pan fydd ei angen arnynt. Maent yn datblygu perthnasoedd gwaith agos gyda staff ac yn ymddiried ynddynt i arwain eu dysgu a sicrhau eu diogelwch a'u lles. Dros gyfnod, maent yn gwella eu hunan-barch a'u hunanhyder. O ganlyniad, maent yn dysgu rheoli risgiau yn amgylchedd diogel tir y coleg a thu hwnt, er enghraifft wrth gerdded neu feicio o gwmpas y tir yn annibynnol a chymryd rhan mewn teithiau cerdded cyffrous yn y mynyddoedd.

Mae dysgwyr â rolau arwain yn helpu gwella amgylchedd y coleg. Er enghraifft, maent yn cymhwyso eu gwybodaeth am iechyd a diogelwch yn dda i roi gwybod i arweinwyr y coleg am faterion fel ceudyllau peryglus, bod angen i bob beiciwr wisgo helmedau, ac am waliau y mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw arnynt. Mae'r fforwm myfyrwyr yn cynrychioli cyfoedion yn dda ac mae hefyd yn cyfrannu at y gymuned leol trwy wasanaethau cynghori fel Gwasanaeth Pobl yn Gyntaf a Chamdriniaeth Ddomestig Sir Gaerfyrddin.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion moesegol, fel tegwch a goddefgarwch o bobl eraill yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad dysgwyr eraill. Er enghraifft, wrth chwarae gemau bwrdd, maent yn disgwyl i bob chwaraewr gadw at y rheolau. Maent yn dangos empathi a phryder am faterion cydraddoldeb pan fyddant yn chwarae rôl ac yn recordio cyflwyniad ar ffurf ffilm fer am brofiadau o ddigartrefedd. Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth a gofal diffuant am eu cyfoedion, yn enwedig y rhai y mae'n well ganddynt weithio ar eu pen eu hunain neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae addysgu yn y coleg yn darparu profiadau hynod ysgogol i ddysgwyr sy'n eu helpu i ymgysylltu'n llawn â'u dysgu a gwneud cynnydd eithriadol o dda. Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn ymarferwyr angerddol a brwdfrydig sy'n cydweithio'n eithriadol o dda i gynorthwyo dysgwyr. Maent yn meithrin perthnasoedd gwaith hynod gynhyrchiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth eithriadol o dda o anghenion eu dysgwyr. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i gynllunio gweithgareddau a thasgau pwrpasol ar gyfer dysgwyr, sy'n eu cymell a'u helpu i ddatblygu ym mhob maes ar draws y cwricwlwm. Ar gyfer pob sesiwn, maent yn datblygu ac yn defnyddio ystod helaeth o adnoddau creadigol sy'n gweddu'n arbennig o dda i anghenion unigol dysgwyr ac yn cefnogi eu hymgysylltiad.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr, ac maent yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol. Mae'r dull hwn yn cynnwys rhoi technegau pwrpasol ar waith i helpu dysgwyr i reoli eu hymddygiad eu hunain ac ymateb yn hyderus yn ystod sesiynau.

Er enghraifft, yn ystod sesiynau gwaith coed, caiff dysgwyr eu hannog i ddefnyddio proses ddigynnwrf, rythmig sandio i reoli eu hymddygiadau a'u hemosiynau. Yn ystod sesiynau, mae staff yn gwneud defnydd deallus a sensitif o holi ac annog i brocio dealltwriaeth dysgwyr a'u cynorthwyo i ymgymryd â thasgau'n llwyddiannus. Maent yn hyblyg o ran eu hymagwedd, ac yn rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau ychwanegol, lle bydd angen, i gynorthwyo dysgwyr i weithio'n annibynnol. Mae tiwtoriaid hefyd yn sicrhau bod cydbwysedd addas o ran cyflwyno rhwng cymorth, tasgau a gweithgareddau dan arweiniad staff a thasgau a gweithgareddau annibynnol.

Yn ystod sesiynau, mae bron pob un o'r staff yn darparu adborth llafar defnyddiol a phwyllog. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud, beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith a beth i'w wneud nesaf. Ar ddiwedd pob sesiwn, mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i gwblhau gwerthusiadau sesiwn am eu dysgu a'u cynnydd, ac mae tiwtoriaid a dysgwyr yn defnyddio'r rhain yn effeithiol ar ddechrau eu sesiwn nesaf i wneud gwelliannau.

Mae cwricwlwm creadigol a chynlluniedig y coleg yn gryfder arbennig. Mae wedi'i deilwra a'i addasu'n llwyddiannus iawn i ddiwallu anghenion unigol pob un o'r dysgwyr ac yn eu paratoi yn dda ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Mae'r coleg yn rhoi ystod eang o brofiadau i ddysgwyr i ddatblygu eu diddordebau a'u medrau ar draws ystod eang o feysydd dysgu o weithgareddau medrau i iechyd a lles ac astudiaethau'r tir. Hefyd, mae'r ddarpariaeth hon yn arwain at achrediad gwerthfawr, lle bo'n briodol.

Mae'r ddarpariaeth alwedigaethol a phrofiad gwaith yn y coleg yn gwella annibyniaeth a medrau cyflogadwyedd dysgwyr. Mae ystod fach o lwybrau a chyrsiau galwedigaethol i ddysgwyr allu eu defnyddio ar y safle. Yn ychwanegol, caiff lleoliadau gwaith eu dewis yn ofalus yn y coleg ac yn y gymuned ehangach i adlewyrchu medrau a diddordebau'r dysgwr.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu hamser datblygiad proffesiynol ar brynhawn dydd Gwener, pan fyddant yn dilyn eu hobïau a'u diddordebau. Mae'r coleg hefyd yn cynnig ystod werthfawr o weithgareddau allgyrsiol i ddysgwyr sy'n cefnogi datblygiad medrau bywyd dysgwyr yn dda. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ymweliad y grŵp cerdded â gwarchodfa'r RSPB, cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau â gwyliau lleol, fel yr ŵyl ddefaid leol lle mae dysgwyr yn arddangos medrau crefft.

Mae cynllunio pwrpasol a strategol y coleg ar gyfer dilyniant ym medrau unigol dysgwyr, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a TGCh yn gryfder. Mae tiwtoriaid yn fedrus yn nodi cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu medrau ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol iawn yn ystod sesiynau. Er enghraifft, yn amgylchedd siop y coleg, mae tiwtoriaid yn cynllunio i ddysgwyr astudio dyddiadau ar gyfer cylchdroi cnydau. Bron ym mhob sesiwn yn yr ystafell ddosbarth, mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i ddefnyddio eu medrau TGCh ar gyfer ymchwil, cyfathrebu, ysgrifennu a chofnodi cynnydd. Mae cynlluniau gwaith yn nodi cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth dysgwyr trwy weithgareddau ymarferol a pherthnasol, er enghraifft mewn gofalu am anifeiliaid bach y coleg, ac mewn datblygiad personol, wrth baratoi bwyd iach. At ei gilydd, mae cydlynu medrau o fewn y cwricwlwm yn rhoi cyfleoedd cynyddol eithriadol o effeithiol i ddysgwyr i'w paratoi'n dda iawn ar gyfer eu bywydau annibynnol yn y dyfodol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol

Mae'r coleg yn darparu lefelau eithriadol o uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i ddysgwyr.  Yn benodol, mae strategaeth effeithiol iawn y coleg cyfan ar gyfer cyfathrebu'n llwyr yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau dysgu a'u medrau cymdeithasol, ac yn eu paratoi yn eithriadol o dda ar gyfer bywyd oedolyn.

Mae dull tîm amlddisgyblaethol y coleg yn hynod effeithiol o ran ysgogi'r strategaeth cyfathrebu'n llwyr.  Trwy weithio gyda'i gilydd, mae pob un o'r staff yn gwella eu medrau cyfathrebu'n llwyr y maent yn eu defnyddio'n gyson gyda dysgwyr.  Mae'r arfer barhaus a gwell hon yn nodwedd gref iawn o gymorth yn y coleg.  Trwy'r gwaith hwn, mae dysgwyr yn datblygu'r dulliau cyfathrebu maen nhw'n eu ffafrio yn unigol ac mae hyn yn eu helpu i ymgymryd â'u dysgu ac ymgysylltu â rhyngweithio cymdeithasol.  O ganlyniad, mae dysgwyr yn gwella eu hunan-barch, eu hunanhyder a'u hannibyniaeth ac mae hyn yn cyfrannu'n gryf iawn at eu cynnydd a'u deilliannau rhagorol.

Mae'r coleg yn cynnal asesiad manwl iawn am dridiau ar gyfer yr holl ddarpar ddysgwyr.  Mae hyn yn galluogi staff i gael dealltwriaeth drylwyr iawn o anghenion, galluoedd a dyheadau'r dysgwyr.  O ganlyniad, mae gan ddysgwyr dargedau perthnasol a phriodol ar eu cynlluniau dysgu unigol.  Mae staff y coleg yn gweithio fel tîm hynod effeithiol ar draws addysg a meysydd preswyl.  Maent yn cydweithio'n dda iawn i werthuso cynnydd dysgwyr o ran bodloni eu targedau ar draws amrywiaeth o weithgareddau.  Mae staff yn cofnodi a choladu'r wybodaeth am gynnydd dysgwyr yn effeithiol ac yn ei defnyddio'n dda i lywio cynllunio yn y dyfodol, gan gynnwys darparu cymorth ychwanegol lle bydd angen.  Mae'r dull tîm hwn o fonitro ac olrhain cynnydd dysgwyr yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawniadau dysgwyr.

Mae gan y coleg bartneriaethau defnyddiol iawn gydag asiantaethau a rhanddeiliaid priodol i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael y gofal, y cymorth a'r arweiniad sydd ei angen arnynt.  Mae'r rhain yn cynnwys yr heddlu lleol, arbenigwyr gofal iechyd ac awdurdodau lleol.  Mae cynghorydd gyrfaoedd yn gweithio gyda'r coleg i gynorthwyo dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr trwy roi cyngor ac arweiniad gwerthfawr iddynt ar ragolygon a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae perthnasoedd rhwng y coleg a rhieni yn hynod effeithiol bron bob amser. Rhoddir cyfleoedd defnyddiol iawn a mynych iddynt ymweld â'r coleg a chael adroddiadau priodol ac amserol ar gynnydd dysgwyr.

Mae'r coleg yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i baratoi dysgwyr ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau.  O ganlyniad, rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygiad personol a chymdeithasol.  Mae tiwtoriaid yn cynllunio'n dda i gynnwys pob agwedd ar ddatblygiad personol trwy gydol eu sesiynau i alluogi dysgwyr i gaffael y medrau hyn wrth i gyfleoedd godi.  Er enghraifft, mewn gwaith coed, caiff dysgwyr eu hannog i weithio mewn parau a chymryd eu tro i hollti pren.  Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddysgu am ddinasyddiaeth, amrywiaeth a chydraddoldeb lle mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth trwy sesiynau chwarae rôl a drama difyr.  Mae iechyd, ffitrwydd a dietau yn rhan annatod o'r cynllunio ar gyfer sesiynau coginio a champfa.  Mae'r coleg yn darparu gwybodaeth berthnasol am addysg ar gyffuriau, alcohol a rhyw mewn ffyrdd y gall y dysgwyr uniaethu â nhw, a'u deall.

Mae staff ar draws y coleg yn cynllunio'n ystyriol i alluogi dysgwyr i fod mor annibynnol ag y bo modd o gwmpas safle eang y coleg.  Gwnânt ddefnydd hynod o dda o gyfleoedd i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth well o sut i aros yn ddiogel.  Mae diogelwch ar-lein yn rhan gyson o wersi TGCh, ac mae cadw eu hunain yn ddiogel yn rhan o ddatblygiad personol dysgwyr.  O ganlyniad, mae dysgwyr yn dangos hyder cynyddol o ran gallu rhoi gwybod i staff os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel neu pan fyddant yn gweld digwyddiad, ac yn dymuno rhoi gwybod amdano.

Mae'r coleg yn darparu llawer o gyfleoedd amrywiol i ddatblygu medrau arwain, a dysgu am gyfrifoldeb.  Mae enghreifftiau'n cynnwys y fforwm myfyrwyr lle mae staff yn cynorthwyo ac annog yr aelodau i gymryd cyfrifoldeb am faterion, pryderon ac awgrymiadau, Cynllun Gwobr Dug Caeredin a sesiynau campfa lle mae dysgwyr yn cymryd eu tro i fod yn arweinydd tîm.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Rhagorol**

Mae'r pennaeth wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus yn sefydlu a hyrwyddo gweledigaeth glir ar gyfer y coleg.  Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar ddarparu addysg bersonoledig o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr sy'n gwneud y gorau o'u hannibyniaeth a'u cyfleoedd bywyd ar ôl bod yn y coleg.

Ar draws y coleg, mae ymdeimlad pwerus o ddiben ac ymrwymiad i werthoedd y coleg, ac i fodloni ei nodau a'i amcanion.  Mae'r lefel hon o ymrwymiad yn cyfrannu'n sylweddol at y safonau eithriadol o dda a gyflawnir gan ddysgwyr a'u lefelau lles uchel.

Mae arweinwyr a staff yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr a nhw eu hunain.  Maent yn modelu a hyrwyddo ymddygiadau proffesiynol, fel meithrin perthnasoedd sydd wedi'u gwreiddio mewn parch ar y ddwy ochr i gydweithio'n effeithiol, ac ysgogi gwelliannau.  Mae staff ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau, ac mae bron pob un ohonynt yn cyflawni eu rôl yn effeithiol.  Ceir trefniadau rheoli llinell diffiniedig, sy'n sicrhau bod staff yn atebol am ansawdd eu gwaith.  Pan nodir tanberfformio, ymdrinnir â hyn mewn ffordd sensitif a phriodol.  O ganlyniad, mae gan y coleg dîm o staff hyderus a brwd sy'n sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon o ddydd i ddydd.

Mae'r ymddiriedolwyr yn darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd eithriadol o werthfawr o ran goruchwylio pob agwedd ar waith y coleg yn ofalus iawn.  Maent yn defnyddio eu harbenigedd a'u profiadau proffesiynol yn effeithiol i lywio cynllunio gwelliant ac fel ffrind beirniadol i gynorthwyo a herio uwch arweinwyr.  Mae gan yr ymddiriedolwyr rôl weithredol ym mywyd y coleg, ac ar y cyd â'r pennaeth a'r uwch arweinwyr, mae'n amlinellu cyfeiriad strategol clir ar gyfer ei ddyfodol.

Mae gan y coleg ystod fuddiol o bartneriaethau strategol, ac mae'n cydweithio'n llwyddiannus gyda darparwyr eraill i feithrin gallu ar gyfer gwella deilliannau dysgwyr ac ansawdd y ddarpariaeth.  Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys cysylltiadau â sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi lleoliadau profiad gwaith

dysgwyr, fel y gwasanaeth achub cŵn lleol a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Maent hefyd yn cynnwys cydweithio gwerth chweil gyda darparwyr addysg eraill yn y sectorau a gynhelir ac ysgolion annibynnol a cholegau i rannu a thrafod syniadau am arfer effeithiol.

Mae cylch gwella ansawdd sefydledig y coleg yn llwyddiannus o ran rhoi darlun cywir o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella bron ym mhob un o'i feysydd gwaith. I gefnogi ei brosesau cynllunio gwelliant, mae'r coleg yn gwneud defnydd gwerthfawr o wybodaeth o'r adroddiadau a gaiff y coleg gan sefydliad cenedlaethol arbenigol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau diwygiedig y coleg ar gyfer gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu bob amser yn rhoi gwybodaeth ddigon clir am gryfderau penodol a meysydd penodol i'w datblygu.

Bu uwch arweinwyr a staff yn llwyddiannus o ran datblygu diwylliant ac ethos sy'n cefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Ar bob lefel, mae staff yn elwa'n sylweddol ar ystod helaeth y cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael iddynt. Caiff y rhain eu nodi'n briodol trwy brosesau cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad ac maent yn adlewyrchu blaenoriaethau ar draws y coleg a blaenoriaethau tîm. Mae hyfforddiant diweddar ar gyfer pob un o'r staff wedi canolbwyntio'n benodol ar gynyddu eu gwybodaeth am ddeall materion synhwyraidd ar gyfer dysgwyr, yn enwedig i ddatblygu ymwybyddiaeth well o ddysgwyr sy'n profi gorlwytho synhwyraidd, sut i adnabod hyn, ac yn datblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r materion. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon i addasu eu cynllunio a'u dull ar gyfer gwahanol ddysgwyr fel eu bod yn eu cynorthwyo'n well.

Mae'r is-bennaeth sy'n gyfrifol am gyllid ac adnoddau, ynghyd â'r pennaeth a'r ymddiriedolwyr, yn monitro cyllid y coleg yn drylwyr. Caiff yr holl wariant ei gyllidebu'n ofalus a'i ddyrannu yn unol â blaenoriaethau a nodwyd. Mae ffocws priodol ar wella marchnata a chynllunio ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

O ganlyniad i reoli'r gyllideb yn ddarbodus, mae'r coleg yn rhoi rhaglen prosiectau cyfalaf deng mlynedd ar waith yn llwyddiannus i sicrhau datblygiad ansawdd da ei amgylchedd ffisegol. Er enghraifft, mae'r neuadd chwaraeon a adeiladwyd yn ddiweddar, yr ystafell ffitrwydd a'r adeilad preswyl ar gyfer Tŷ Pickwick yn darparu cyfleusterau ac adeiladau o'r radd flaenaf. Mae'r datblygiadau hyn yn helpu sicrhau bod dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd ysgogol lle maent yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau eu dysgu ac yn gwneud cynnydd rhagorol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn staff addysgu a staff cymorth trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â’r perchnogion, arweinwyr y coleg ac aelodau unigol o’r staff addysgu a’r staff cymorth i werthuso effaith gwaith y coleg
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu coleg
- yn ymweld â sesiynau ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgwyr yn dysgu a gweld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r coleg
- yn ystyried cynllun gwella’r coleg ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y coleg wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r coleg, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff goruchwylio, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y coleg ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2019